# Sgan uwchsain dwysedd uchel wedi'i ffocysu ar gyfer nodiwlau thyroid anfalaen symptomatig

27 Chwefror 2019

Prin yw'r dystiolaeth gadarn sy'n dangos pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio i drwsio nodiwlau thyroid anfalaen symptomatig. Gellir defnyddio'r driniaeth hon, ond dim ond pan fydd cleifion yn cael archwiliadau rheolaidd i weld pa mor dda mae'n gweithio neu a yw wedi achosi problemau. Mae hyn oherwydd y pryderon ynghylch yr effeithiau hirdymor a'r cymhlethdodau difrifol sy'n deillio ohoni.

Lwmp yn chwarren y thyroid yw nodiwl thyroid. Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn anfalaen (nid yn ganseraidd). Mae'r driniaeth hon yn defnyddio gwres a wneir drwy donnau sain i ddinistrio meinwe yn y nodiwl. Y nod yw gwneud y nodiwl yn llai, a thrwy hynny liniaru symptomau pwysedd a gwella'r olwg.

Mae gan ganllawiau ymyriadau NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

## *A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?*

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu neu'ch ffrindiau fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

## *Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt*

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?
- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN: 978-1-4731-3271-9



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.